**Cofnodion cyfarfod Cyngor Tref Dinbych a gynhaliwyd nos Lun Ionawr 26ain 2015 yn Neuadd y Dref Dinbych am 6.30 o'r gloch.**

**Presennol:** Cynghorwyr Rob Parkes (cadeirydd), Raymond Bartley, Margaret Bowe, Gaynor Morgan Rees, Medwyn Williams, Geraint Williams, , Colin L Hughes, Brian Davies, Roy Tickle, Mark Young, Gaynor Wood, Catherine Jones, Philip Stevens a Medwyn Jones (Clerc y Dref)

**Ymddiheuriadau:** Cyng. Shereen Devine a Colin Hughes

**Arsylwi:** Cynghorydd Sir Gwyneth Kensler.

Croesawodd y cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

**176. Cyfarfod a heddlu Gogledd Cymru.** Croesawodd y cadeirydd y Rhingyll Neil Stringfellow ac fe'i gwahoddodd i annerch y cyfarfod. Dywedodd y Rhingyll Stringfellow fod un mater ar hyn o bryd ynglŷn â Helfa Dinbych a Fflint - helfa, staff a phrotestwyr ac yn cymryd llawer o amser yr heddlu. Mater arall oedd saga Cae Dai a Facebook - roedd yr heddlu yn edrych ar y mater unwaith eto a'r gobaith oedd y bydd yr holl fater yn marw i lawr unwaith eto. Derbyniwyd llawer o wybodaeth ynglŷn â phroblemau cyffuriau yn y dref - roedd yr heddlu yn edrych ar fannau poeth oedd a gwybodaeth. Cafwyd gwarant ar gyfer Con Amici ynglŷn ag un i dri o unigolion - bu i'r mater ddatrys ei hun. Bu cyfnod y Nadolig ar y cyfan yn un iawn - roedd rhai problemau dydd Gŵyl Sant Steffan. Bu i noswyl y flwyddyn newydd achosi problemau ym Mhwll y Grawys lle bu ymosodiad ar heddwas. Roedd mannau ar ben eu hunain yn y dref lle'r oedd problemau gyda meddwon - roedd yr heddlu yn edrych ar un neu ddau o adeiladau trwyddedig yn y dref a'r gobaith oedd y bydd y weithred a gymerir yn gosod meincnod. Roedd rhan fwyaf o'r adeiladau yn y dref dan reolaeth dda. Nid oedd gwir broblemau gydag ymddygiad gwrth cymdeithasol a dim tueddiad tuag at brif droseddau yn y dref. Roedd yr heddlu yn edrych ar yrru gwrth gymdeithasol. Roedd yr adran CID yn targedu byrgleriaeth yn Ne Sir Ddinbych oedd yn ymglymu minteioedd o Ddwyrain Ewrop. Roedd ystadegau ar gyfer De Sir Ddinbych yn dangos 21 o ddigwyddiadau gwrth cymdeithasol, 14 ymosodiadau A47, 4 ymosod ar yr heddlu, 2 byrgleriaeth tai, 17 ymosod cyffredin, 15 difrod troseddol, 30 o ddigwyddiadau domestig, 3 o droseddau cyffuriau, 1 lladrad, 32 o ddamweiniau traffig, 6 siopladrad, 5 lladrad o gerbydau, 10 lladrad cyffredinol. Ynglŷn â lefelau staffio dau PCSO newydd wedi eu penodi. Roedd lledaeniad staff ar draws 5 rota. Beth oedd ei angen oedd CBM. Roedd ariannu ar gael ar gyfer prosiectau cymunedol ar draws yr adran ganolig - £20k ar gael - byddai rhywfaint ar gael i'w ddefnyddio'n lleol - roedd y Rhingyll Stringfellow yn edrych am syniadau.
Aeth y Rhingyll Stringfellow ymlaen i ateb cwestiynau a sylwadau oddi wrth yr aelodau ar (1) goryrru ar Stryd y Dyffryn, (2) problemau cyffuriau mewn adeilad arbennig ar Stryd y Dyffryn, (3) CBM, (4) troseddau cyffuriau yn gyffredinol, (5) cylchfan fechan Ffordd y Graig, (6) problemau parcio ym Mryn Siriol, (7) goryrru ar Lôn Llewelyn, (8) parcio ar y palmant ar Stryd y Dyffryn a thu allan i'r ysgolion, (9) anrhefn dydd Gŵyl Sant Steffan, (10) lefelau staffio, (11) rhai ifainc yn rasio. Cytunwyd gyrru llythyr o gefnogaeth ar gyfer apwyntiad CBM. Diolchodd y cadeirydd i'r Rhingyll Stringfellow am ei bresenoldeb ac am rannu gwybodaeth a'r cyngor.

**177. Materion Brys**: Nid oedd unrhyw fater brys.

**178. Datganiad Diddordeb Personol:** Derbyniwyd y datganiadau canlynol:

(1) Cyng Roy Tickle - eitem agenda 9(2) - cymorthdaliadau - Clwb Golff Dinbych.
(2) Cyng Roy Tickle - eitem agenda 8(6) - cynllunio - llwybr teithio aml ddefnyddiwr.
(3) Cyng Margaret Bowe - eitem agenda 7(9) - gohebiaeth - ffordd osgoi Dinbych.
(4) Cyng Gaynor Morgan Rees - eitem agenda 9(2) - cymorthdaliadau - Theatr Twm o'r Nant.
(5) Cyng Geraint Williams - unrhyw fater oedd yn berthnasol i Gyngor Sir Ddinbych.
(6) Cyng Raymond Bartley - unrhyw fater oedd yn berthnasol i Gyngor Sir Ddinbych.

(7) Cyng Rob Parkes - eitem agenda 12(1) - Cyfrifon - taliad Parc Sglefrio.

**179. Derbyniwyd Cofnodion cyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd ar Ragfyr 15fed 2014, Cofnodion Cyfarfod Pwyllgorau Cynllunio, Cyllid a Materion Cyffredinol a gynhaliwyd ar Ionawr 12fed 2015 a Chofnodion Cyfarfod Arbennig o'r Cyngor a gynhaliwyd ar Ionawr 19eg 2015**

**180. Materion yn codi:** 15.12.14: (1) Cofnod 162(2)(5) - Cloc y Dref. Dywedwyd fod y cloc unwaith eto yn colli amser. Cyngor Tref i ysgrifennu at CSDd.

12.1.15: (2) Cofnod 172(1) - Stryd fawr Dinbych. Dywedwyd mai'r gwir broblem oedd cerbydau yn gyrru o amgylch y groesfan cerddwyr ac nid yr adran ar draws canol y ffordd er bod cerbydau yn croesi'r fan yno hefyd.

19.1.15: Nid oedd unrhyw fater yn codi.

**181. Adroddiad y Maer.** Derbyniwyd adroddiad ysgrifenedig y Maer. Ymhelaethodd y Maer ar un neu ddau o faterion oedd yn gynwysedig yn yr adroddiad

**182. Llythyrau a Hysbysiadau:** Cytunwyd i nodi pedair o eitemau o ohebiaeth a dderbyniwyd

2. Cytunwyd i nodi a gweithredu fel bo angen ar y canlynol:

(1) Fforwm Twristiaeth Sir Ddinbych 25.2.15 - y Cyng Medwyn Williams i gynrychioli'r cyngor.
(2) Mike Jones CSDd - ymateb e-bost ynglŷn â Stryd Fawr Dinbych. Derbyniwyd nifer o sylwadau. Cytunwyd fod y sefyllfa yn un beryglus a theimlwyd fod CSDd yn isafu'r broblem, nid oeddynt â diddordeb ac yn anwybyddu'r broblem. **Penderfynwyd** (yn unfrydol) **i wahodd y swyddog i gyfarfod a'r cyngor tref ar y safle.**
(3) E-bost oddi wrth y Cyng Shereen Devine ynglŷn â chaniatâd absenoldeb. Eglurodd clerc y dref fod Adran 85 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 yn caniatáu i'r cyngor gymeradwyo cyfnod o absenoldeb. **Penderfynwyd** (yn unfrydol) **i gymeradwyo cyfnod o absenoldeb am wyth wythnos ac i adolygu ymhellach ar ddiwedd y cyfnod.**
(4) E-bost oddi wrth Steve Chalk ynglyn a Chlwb Bowlio'r Parc Isaf. Cytunwyd i adael ar bwrdd tan y derbynnir mwy o wybodaeth.
(5) E-byst oddi wrth CSDd a'r Cyng Raymond ynglŷn â chais gan Glwb Rotari Dinbych i enwi Ffordd Osgoi Dinbych fel Ffordd Rotari / Rotary Road. **Penderfynwyd** (12 pleidlais i 1) **i gefnogi'r cais.**
(6) E-bost oddi wrth y Cyng Roy Tickle, fel cadeirydd Gŵyl Ganol Haf, yn gwneud cais am ganiatâd i ddefnyddio Gardd Goffa Dr Evan Pierce ar gyfer y gystadleuaeth Boules flynyddol ar Fehefin 22ain 2015. Cytunwyd i roddi caniatâd.

**183. Cynllunio**: Yn dilyn trafodaeth penderfynwyd peidio â gwrthwynebu'r ceisiadau canlynol am ganiatâd cynllunio:

(1) Bryn Nefydd, Fordd Copy
(2) Fferm Broadleys
(3) Lawnt Cottage
(4) Tir ger Golchfa Ceir, Stâd Ddiwydiannol Colomendy
(5) 76, Lyf Lôn

Trafodwyd y cais cynllunio a dderbyniwyd ar gyfer Tir rhwng Eglwys Dewi Sant, Lôn Dewi Sant a Ffordd y Brwcws a mynegwyd nifer o sylwadau. Gadawodd y Cyng Roy Tickle y siambr tra bu'r drafodaeth am ei fod wedi datgan diddordeb. Cytunwyd fod angen mwy o amser i ystyried y cais a chytunwyd i ofyn am estyniad amser tan gyfarfod nesaf y cyngor ar Chwefror 9fed 2015.

2. Materion Cynllunio eraill. Nid oedd unrhyw fater cynllunio arall.

*Yn y man yma gadawodd y Cyng Philip Stevens y cyfarfod am 7.41 o'r gloch.*

**183. Cofnodion / adroddiadau is bwyllgorau'r cyngor** (1) Moderneiddio. Ystyriwyd adroddiad tair tudalen, a baratowyd gan glerc y dref yn dilyn cyfarfod diweddar o'r gweithgor. Cytunwyd fod yr aelodau angen mwy o amser i ystyried yr adroddiad a gohiriwyd y mater tan gyfarfod nesaf y cyngor ar Chwefror 9fed 2015.

(1) Cymorthdaliadau: Ystyriwyd cofnodion cyfarfod diweddar. Ystyriwyd a chymeradwywyd pob un cais oedd yn gynwysedig o fewn y cofnodion fel a ganlyn:

| | | | |
|---|---|---|---|
| (1) | Ford Gron Dinbych | - | £350 (A.137)(rhif siec 005537) |
| (2) | Clwb Golff Dinbych | - | £3,000 (A.137)(rhif siec 005538) |
| (3) | Theatr Twm o'r Nant | - | £2,493.14 (A.145)( rhif siec 005539) |
| (4) | Relate Cymru | - | £100 (A.137)(rhif siec.005540) |
| (5) | Breast Cancer Care Cymru | - | £100 (A.137)(rhif siec 005541) |
| (6) | Denbigh Community First Responders | - | £1,000 (A.137)(rhif siec 005542) |
| (7) | Clwb Rygbi Dinbych Mini Juniors | - | £1,000 (S.137)(rhif siec 005543) |

**184. Adroddiadau**: (1) Tywyswyr Gwirfoddol. Ystyriwyd a chymeradwywyd adroddiad ysgrifenedig clerc y dref ar gyfarfod diweddar a gynhaliwyd rhyngddo ef a'r tywyswyr gwirfoddol.

(2) CCTCGC. Cafwyd adroddiad byr llafar gan y cyng Roy Tickle ar ginio blynyddol y ddolen gyswllt a gynhaliwyd ym Miwmares ar Ionawr 24ain. Man cyfarfod campus, pryd o fwyd ffantastig a phresenoldeb da o'r pedair tref. Cafwyd dau gyflwyniad o aelodaeth anrhydeddus i Chris Lines o Gaer a Chlerc y Dref Dinbych gan Lywydd Trefi Caerog Ewropeaidd, Joseph Spiteri o Valletta.

(3) CCTGCaChC. Cafwyd adroddiad llafar gan y Cyng Raymond Bartley ar gyfarfod diweddar yn Siambr Cyngor Tref Bwcle. Roedd 25-30 o aelodau'n bresennol, rhan fwyaf o ardal y Glannau. Roedd y cyfarfod yn un oedd braidd yn boliticaidd. Cafwyd cyflwyniad da ar Fasnach Deg. Ymhelaethodd y Cyng Bartley ar rai o'r materion a drafodwyd. Mwynhawyd cinio rhagorol ar ôl y cyfarfod. Cyfarfod nesaf yn y Rhyl ar Ebrill 24ain 2015.

(4) Darlithoedd Treftadaeth. Dywedodd y Cyng Mark Young y bu i'r ddarlith agoriadol gan y Grŵp Archif Gymunedol yn un gampus.

(5) Hwb Dinbych. Dywedodd y Cyng Mark Young fod yr Hwb wedi cael gwaith i naw o bobl ifainc.

Nid oedd unrhyw adroddiadau eraill.

**185. Adroddiadau gan y Cynghorwyr Sir ar Faterion oedd yn Briodol i Ddinbych yn unig:**

1. Cafwyd adroddiad gan y Cyng. Geraint Williams - (1) Cyfarfod pellach gan bobl Dinbych ynglŷn â thoriadau CSDd ar Ionawr 30ain yn y Capel Mawr. (2) Gwahanol sylwadau ar y rhwydwaith cymdeithasol ynglŷn â thoriadau CSDd - posibiliadau o newyddion positif ynglŷn â chartrefi henoed. (3) Archebiant y Sir heb ei benderfynu. (4) Cynigion wedi ei selio ar gyfer Lôn Ganol - pryder y bydd cwmni datblygu mawr yn ennill ac yna ddim yn ymgorffori tai gofal mwy mewn unrhyw ddatblygiad. (5) Cynllun Ardal - pryder ynglŷn â chyflwr cylchfan Pwll y Grawys - arian ar gael i ail-adeiladu. Arian hefyd ar gael i'w ddefnyddio i ailfodelu Cylchfan Ffordd y Rhyl gyda'r bwriad o gael mynediad newydd i Stad Ddiwydiannol Colomendy. (6) Achos pryniant gorfodol Ysbyty Gogledd Cymru.

2. Cafwyd adroddiad gan y Cyng. Raymond Bartley: (1) Estynnwyd amser cynigion wedi ei selio ar gyfer Lôn Ganol tan Ionawr 30ain. (2) Dolwen - amser ymgynghoriad ar y gorwel - posibilrwydd o beidio â chau os na fydd llety arall ar gyfer preswylwyr ar gael. (3) Gwaith ail-wynebu Parc Myddleton yn parhau. (4) Safle Kwik Save - ceisiadau cynllunio i'w cyflwyno gan Home Bargains ac Aldi. 25 o swyddi newydd yn Home Bbargains a 50 yn Aldi.

3. Gyda chaniatâd y cadeirydd, Cafwyd adroddiad gan y Cyng. Gwyneth Kensler: (1) Gwaith adeiladau swyddfa newydd Grŵp Cynefin i ddechrau ar Chwefror 8fed 2015. (2) Diolch i'r tywyswyr gwirfoddol am daith Thomas Gee dydd Sul Ionawr 25ain. (3) Tîm yr Archif Gymunedol wedi adleoli o'r Llyfrgell i'r Amgueddfa. (4) Hwyrach bydd Drysau'n Agored 2015 ddim yn digwydd yn Ninbych.

**186. Cyfrifon** 1. Penderfynwyd talu'r cyfrifon canlynol:

| | | | |
|---|---|---|---|
| (1) | CSDd - Cynnal a chadw'r Parc Sglefrio 2014/2015<br>(rhif siec 005544) | - | £5,290.42 |
| (2) | Cambrian Woodland Services - Coed Nadolig<br>(rhif siec 005545) | - | £1,314.00 |
| (3) | Catalyst Systems - storfa data diogel oddi ar y safle (Rhagfyr)<br>(rhif siec 005546) | - | £8.82 |
| (4) | Catalyst Systems - glanhau a thrwsio gliniadur y swyddfa<br>(rhif siec 005547) | - | £70.80 |
| (5) | Catalyst Systems - tynnu i ffwrdd viruses a malware oddi ar y cyfrifiadur<br>(rhif siec 005548) | - | £90.00 |
| (7) | Zen Internet - darpariaeth ADSL (Chwefror)<br>(rhif siec 005549) | - | £18.37 |
| (7) | CSDd - darparu cyflenwad trydan i gamera cctv a goleuadau Nadolig<br>(Cofnod 122(2)(4) yn cyfeirio)<br>(rhif siec 005550) | - | £170.48 |
| (8) | Ernest Martin - cloi ac agor giât gardd Dr E P Garden<br>(rhif siec 005551) | - | £60.00 |
| (9) | Catalyst Systems - cyfrifiadur a monitor newydd ar gyfer yr archif gymunedol<br>(Cofnod 163(2)93) yn cyfeirio)<br>(rhif siec 005552). | - | £998.40 |
| (10) | Cyng Raymond Bartley - costau teithio (Bwcle)<br>(rhif siec 005553) | - | £19.80 |

Cyfanswm taliadau: £8,041.09

**2.** Unrhyw faterion ariannol eraill: Nid oedd unrhyw fater ariannol arall.

Am nad oedd mwy i'w drafod, terfynwyd y cyfarfod am 8.21 o'r gloch.

Arwyddwyd:........................................................ (cadeirydd)

Dyddiad:........................